**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 13eg Ionawr, 2022 at 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | P White (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol J. Higginson (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sirol: A. Easson, M.Lane, P. Murphy, V. Smith and B. Strong |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Andrew Wathan | Prif Archwilydd Mewnol |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Gareth Lucey | Swyddog Archwilio Cymru |
| Jonathan Davies | Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol M.Feakins, P. Jordan and J.Watkins

1. **County Councillor P. Clarke**

Cynhaliodd y Pwyllgor funud o dawelwch er cof am y Cynghorydd Sir, Peter Clarke, Aelod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a fu farw yn ddiweddar.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Eitemau 5 a 6: Datganodd y Cynghorwyr Sir, P. Murphy ac A Easson fuddiant personol a di-ragfarn fel ymddiriedolwyr Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o’r cyhoedd yn bresennol.

4. **Nodi'r Rhestr Weithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Nid oedd unrhyw gamau gweithredu ers y cyfarfod diwethaf.

I ateb cwestiwn gan un o’r aelodau, cadarnhawyd fod caffael bwyd yn rhan o’r cydweithrediad â Chyngor Dinas Caerdydd.

5. **Cyfrifon Archwiliedig Cronfa’r Ymddiriedolaethau (Cronfa’r Degwm/Ffermydd Sir Fynwy)**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 13eg Ionawr, 2022 at 2.00 pm**

Cyflwynodd yr Uwch Gyfrifydd Cyllid a Swyddog Archwilio Cymru gyfrifon archwiliedig Cronfa'r Ymddiriedolaeth (Cronfa'r Degwm ac Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy) a'r eitem ganlynol, ISA 260 neu gyfwerth i Gronfeydd yr Ymddiriedolaeth. Ystyriwyd yr eitemau hyn gyda'i gilydd. Atgoffwyd y Pwyllgor fod archwiliad llawn o Gronfa'r Degwm yn cael ei gynnal, ac archwiliad annibynnol llai manwl o Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy. Cynigiwyd y dylid cyhoeddi barn ddiamod ar gyfer y ddwy gronfa.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol dros dro i'r Uwch Gyfrifydd, y Adran Gyllid, a'r Rheolwr Cyllid a Gwasanaethau Cymorth Plant a Phobl Ifanc am weithio ar y cronfeydd yn ystod blwyddyn anodd. Diolchodd hefyd i Swyddogion Archwilio Cymru.

Datganodd y Cynghorwyr Sir, Easson a Murphy fuddiant personol a diragfarn fel ymddiriedolwyr Cronfa Ymddiriedolaeth Waddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiadau, roedd cyfle i Aelodau o'r Pwyllgor i wneud sylwadau ac i ofyn cwestiynau.

Ategwyd y diolch hwnnw gan un o'r aelodau ond dywedodd hefyd fod newid mawr i fantolen Cronfa'r Degwm, gan nodi fod yr asedau cyfredol net wedi gostwng o £85,000 i £8,900. Derbyniodd yr esboniad a nodwyd yn yr adroddiad am hyn, ond roedd yn awyddus i amlygu'r pwynt hwn i Aelodau o'r Pwyllgor.

Esboniodd y Swyddog fod llawer o'r grantiau a dderbyniwyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi'u talu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a arweiniodd at wario mwy na'r swm arferol o wariant arian parod, a lleihau balans yr arian parod a'r asedau cyfredol net.

Mabwysiadwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan fod y Pwyllgor wedi:

1) adolygu'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer Deddf Cronfa'r Degwm 2020/21 (***Atodiad 1***) mewn cydweithrediad ag adroddiad Archwilio Cyfrifon ISA260 Archwilio Cymru ar gyfer Deddf Cronfa'r Degwm.
2) adolygu cyfriflenni ariannol archwiliedig ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy ar gyfer 2020/21 (***Atodiad 2***) mewn cydweithrediad â'r Adroddiad Archwiliad Annibynnol ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

## 6. ISA 260 neu gyfwerth ar gyfer Cronfeydd Ymddiriedolaethau

Cafodd yr eitem hon ei hystyried yr un pryd â'r eitem flaenorol.

## 7. Asesiad risg gwrth-lwgrwobrwyo

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 8. Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit

Gohiriwyd yr eitem hon.

## 9. Blaengynllun

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 13eg Ionawr, 2022 at 2.00 pm**

Cytunwyd i aildrefnu'r eitemau a ohiriwyd uchod fel rhan o'r Blaengynllun.

**10. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

**11. I nodi dyddiad y cyfarfod nesaf ar 17 Chwefror 2022 am 2.00pm**

**Gorffennodd y cyfarfod am 2.15 pm**